HSCCLD357

# Arsylwi a chefnogi cynnydd plant yn unol â fframweithiau blynyddoedd cynnar

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn nodi’r gofynion ar gyfer arsylwi a chefnogi cynnydd plant o fewn y fframweithiau blynyddoedd cynnar perthnasol. Mae'n cynnwys gweithio gyda theuluoedd, plant ac eraill i gynllunio arsylwadau ystyrlon ac asesiadau sy'n sail i ymarfer. Mae hefyd yn golygu creu mannau dysgu a phrofiadau diddorol ar y cyd â phlant a theuluoedd. Dylai'r dull gweithredu gyd-fynd â gwerthoedd ac ethos y gweithle a bod yn gyson â'r fframweithiau yn eich gwlad.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis gwybodaeth berthnasol o fframweithiau blynyddoedd cynnar i arwain a llywio arsylwadau ac asesiadau
2. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynllunio arsylwadau ac asesiadau addas
3. creu amgylcheddau meithringar a diogel yn emosiynol lle mae teuluoedd yn teimlo'n gyfforddus yn trafod dulliau dysgu a datblygu plant
4. defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar chwarae wrth gynllunio arsylwadau
5. cynnwys plant yn y gwaith o lunio eu taith ddysgu drwy werthfawrogi eu lleisiau a sicrhau bod arsylwadau'n rhan annatod a phleserus o'u profiadau
6. cynllunio arsylwadau sy'n hyblyg ac yn ymatebol i ddiddordebau datblygol, chwilfrydedd a rhyngweithiadau plant
7. arsylwi mewn ffordd sy'n rhoi darlun holistaidd o deithiau dysgu, rhyngweithiadau a llesiant emosiynol plant
8. sicrhau bod arsylwadau ac arferion asesu'n adlewyrchu ethos, gwerthoedd ac egwyddorion addysgegol y gweithle
9. defnyddio arferion bob dydd a phrofiadau chwarae fel cyfleoedd i arsylwi
10. sicrhau bod arsylwadau'n hybu amrywiaeth, cynhwysiant, ac arferion teg a gwrthwahaniaethol
11. cael gafael ar adnoddau i gefnogi arsylwadau myfyriol
12. rhannu a myfyrio ar arsylwadau â phlant a theuluoedd
13. defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau i annog teuluoedd i rannu adborth ynghylch datblygiad plant
14. addasu dulliau a strategaethau yn seiliedig ar fyfyrdodau gyda theuluoedd ac eraill
15. adnabod a dathlu cyflawniadau plant, a'u cynorthwyo mewn ffordd sensitif a chefnogol wrth iddynt gymryd y camau nesaf
16. sicrhau bod asesiadau ffurfiannol a chrynodol yn llywio'r gwaith cynllunio, gan ymateb i ddiddordebau, dewisiadau ac anghenion sy'n dod i'r amlwg ymysg y plant
17. nodi pryd mae angen cymorth ychwanegol ar blant a mynnu ymyriadau addas
18. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arsylwi a chefnogi cynnydd plant yn unol â fframweithiau blynyddoedd cynnar
19. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arsylwi a chefnogi cynnydd plant yn unol â fframweithiau blynyddoedd cynnar

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwysigrwydd arferion a chyfnodau pontio o ran darparu parhad a diogelwch i blant
2. ffactorau cymdeithasol, corfforol ac economaidd sy'n effeithio ar ddatblygiad plant
3. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ddatblygiad plant
4. effaith ymlyniad, perthnasoedd a llesiant ar allu plant i ymwneud â dysgu
5. pwrpas fframweithiau cwricwlwm blynyddoedd cynnar o ran cefnogi dysgu a datblygu holistaidd plant
6. rôl arsylwadau mewn cylchoedd cynllunio
7. dulliau arsylwi a chofnodi plant yn y gweithle
8. dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar chwarae i gefnogi arsylwadau ac asesiadau
9. sut mae defnyddio arsylwadau fel adnoddau myfyriol i lywio'r gwaith cynllunio a chreu profiadau dysgu ystyrlon a diddorol
10. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth arsylwi ac asesu plant
11. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth arsylwi ac asesu
12. pwysigrwydd dulliau cynllunio ymatebol a chylchol sy’n adeiladu ar brofiadau a diddordebau esblygol plant
13. disgwyliadau cyrff rheoleiddio ac arolygiaethau mewn perthynas â chynllunio a gweithredu cwricwlwm
14. ystyriaethau moesegol a mesurau diogelu sy'n gysylltiedig ag arsylwi ar blant, gan gynnwys pwysigrwydd sensitifrwydd a gwrthrychedd
15. dylanwad diwylliant a chefndir ar sut rydych yn cynllunio ar gyfer arsylwi ac asesu
16. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth arsylwi ac asesu
17. strategaethau ar gyfer nodi lleisiau plant
18. sut mae defnyddio asesiadau, cofnodion ac adroddiadau yn effeithiol i olrhain dysgu a llywio’r camau nesaf
19. sut mae rhannu arsylwadau ac asesiadau yn fewnol ac yn allanol yn unol â chyfrinachedd a diogelwch digidol
20. theorïau sy’n berthnasol i arsylwi a chefnogi cynnydd plant yn unol â fframweithiau blynyddoedd cynnar

21. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arsylwi a chefnogi cynnydd plant yn unol â fframweithiau blynyddoedd cynnar
22. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arsylwi a chefnogi cynnydd plant yn unol â fframweithiau blynyddoedd cynnar
23. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arsylwi a chefnogi cynnydd plant yn unol â fframweithiau blynyddoedd cynnar, a sut i fynd i’r afael â hyn
24. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arsylwi a chefnogi cynnydd plant yn unol â fframweithiau blynyddoedd cynnar

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD357

Arsylwi a chefnogi cynnydd plant yn unol â fframweithiau blynyddoedd cynnar

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD357 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cynnydd Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |